

Tirwedd Ddiwydiannol Cymru Cyn Ffotograffiaeth

Cyflwyniad |

Mae adnoddau 'Banc Lluniau' yn darparu cyfres o ddelweddau sy'n canolbwyntio ar thema neu bwnc penodol.

Mae'r adnodd 'Banc Lluniau' hwn yn canolbwyntio ar dirwedd ddiwydiannol Cymru, rhwng 1790 a 1860. Mae'r delweddau wedi'u dewis o gasgliad Amgueddfa Cymru. Mae eu cydraniad yn ddigon uchel i'w defnyddio fel adnoddau bwrdd gwyn.

Yn y nodiadau canllaw hyn fe welwch wybodaeth gefndir am y thema, dehongliad o'r delweddau a manylion am ddarllen pellach ac adnoddau ar y we.

Mae modd lawrlwytho'r adnodd ac nid yw ar gyfer unrhyw oedran na cham cynnydd penodol. Rydyn ni'n annog defnyddwyr i ddarllen drwy'r nodiadau a golygu'r adnoddau mewn modd sy'n gweddu orau i'w hanghenion.

Gwybodaeth Gefndir |

Gall Cymru honni mai hi yw cenedl ddiwydiannol gyntaf y byd. Y rheswm dros hyn, yw fod mwy o bobl yn cael eu cyflogi mewn diwydiant yng nghanol y 1800au nag oedd yn gweithio mewn amaethyddiaeth. Yn lle llafurio yn y caeau, roedd teuluoedd bellach yn symud i ganolfannau diwydiannol ledled Cymru yn y gobaith o ennill mwy o arian. Roedd y galwedigaethau oedd ar gael i'r teuluoedd hyn yn eu gosod o flaen ffwrneisi gwynboeth yn toddi mwynau, yn torri chwareli mawr, yn cloddio siafftiau dwfn i gael glo, ac yn symud a phentyrru'r symiau enfawr o'r gwastraff oedd yn cael ei greu gan y diwydiant hwn.

Dechreuodd diwydiannu Cymru godi stêm tua 1750 a pharhaodd i ehangu i'r 1800au. Mewn cyfnod lle nad oedd ffotograffiaeth yn bodoli neu pan oedd yn ei dyddiau cynnar, celf oedd yr unig ffordd o greu cofnod gweledol o dirwedd newidiol Cymru.

Tirwedd Ddiwydiannol Cymru Cyn Ffotograffiaeth

Gwybodaeth Gefndir |

Mae'r delweddau a ddewiswyd yn cyfleu hanes y Gymru ddiwydiannol yn weledol. Golygfeydd o drefi yn cael eu llyncu gan fflamau a mwg, gyda chysgodion y gweithwyr bythol bresennol yn llafurio'n ddi-baid. Roedd yr artistiaid yn llygad dystion, gyda phensiliau, paent, brwshys ac îsl wrth law, ac mae eu gwaith yn helpu i ddiffinio ein dealltwriaeth o'r gorffennol.

Delweddau a ddefnyddiwyd a'u dehongliad |

Mae rhai adroddiadau gan lygad dystion wedi'u cynnwys i helpu i ddod â'r lleoliad yn fyw.

Sleidiau 1-4 | Mae'r delweddau hyn i gyd yn ymwneud â mwyngloddio copr ar Ynys Môn. Mae'r paentiadau'n dangos maint y diwydiant a'r gweithwyr yn torri'r mwyn copr yn lymphiau bach â llaw, gan ei godi i'r wyneb mewn bwcedi, cyn iddo gael ei gludo i Swydd Gaerhirfryn yn Lloegr neu i Gwm Tawe Isaf yn y de-orllewin i'w fwyndoddi. Mae yna hefyd ddelwedd o'r bont grog fawr gyntaf yn y byd, sef Pont Menai, sy'n symbol o ddatblygiad a phwysigrwydd y llwybrau i Ynys Môn ac ohoni.

Daw'r hanes isod o daith o amgylch y pyllau copr ym 1785.

Llygad dyst:

"Caiff darnau mawr o graig sy'n cynnwys y mwyn eu chwythu gan bowdr gwn. Yna caiff y darnau hyn eu codi i'r wyneb mewn bwcedi o waelod y pwll, i'w torri'n ddarnau llai eto - y garreg bur yn cael ei thaflu a'r mwyn yn cael ei ddioli yn ôl ei werth. Yn y broses hon o dorri'r mwyn mae cannoedd o bobl yn cael eu cyflogi'n gyson...Mae'r darnau gorau yn cael eu hanfon ar unwaith i'r tai mwyndoddi ger Lerpwl." (Richard Twinning, Taith o ogledd Cymru, 1785)

Tirwedd Ddiwydiannol Cymru Cyn Ffotograffiaeth

Delweddau a ddefnyddiwyd a'u dehongliad |

*Y ffin rhwng Mwyngloddiau Copr Mona a Mynydd
Parys, J W Smith, (dyfrlliw), 1790*

Mwyngloddwyr Menai, J C Ibbetson, (dyfrlliw), 1792

Mwyngloddiau Menai, J C Ibbetson, (dyfrlliw), 1792

*Pont Menai, Bangor, W H Bartlett, J Rogers, G Virtue,
(print), 1841*

*Sleidiau 5-10 | Datblygodd diwydiant yng Nghastell-
nedd ac Abertawe yn gynharach na llawer o ardaloedd
eraill yng Nghymru. Arweiniodd mwyndoddi copr a'r
angen am lo ar gyfer y broses fwyndoddi at agor
llawer o byllau glo a gweithfeydd copr. Erbyn 1784,
roedd saith cwmni mwyndoddi copr mawr yn yr ardal,
a rhyngddynt roedden nhw'n prynu dros 72% o'r mwyn
copr oedd ar gael i'w brynu ym Mhrydain. Mae'r
delweddau hyn yn dangos y gweithfeydd glo a'r
gweithfeydd copr cynnar. Maen nhw hefyd yn dangos
olwynion dŵr oedd yn pweru'r gweithfeydd.*

*Daw'r hanes isod gan yr artist a greodd yr ysgythriad o
Abaty Nedd.*

Llygad dyst:

*Mae'r ffigyrau yn y blaendir yn cynrychioli'r modd
mae'r glo yn cael ei gludo, o'r pyllau i'r tai mwyndoddi.
Enw'r cerbydau oedd yn cael eu defnyddio i gludo'r
tanwydd hwn oedd y wagenni dram. Byddai pedwar
neu bump o'r peiriannau trwm hyn, wedi eu cysylltu â'i
gilydd, ac wedi eu llenwi â glo, yn cael eu tynnu'n
rhwydd gan ferlen ar hyd y rheilffyrdd...(Edward
Donovan, 1805)*

*Abaty Nedd gyda phwll glo yn y blaendir a gwaith
mwyndoddi Abaty Nedd yn y pellter, gan E Donovan,
(ysgythriad), 1805*

Melin Aberdulais, T Hornor, (dyfrlliw), 1817

*Gweithfeydd Glo, golygfa ger Castell-nedd yn Sir
Forgannwg, J Hassell, (ysgythriad), 1798*

Tirwedd Ddiwydiannol Cymru Cyn Ffotograffiaeth

Delweddau a ddefnyddiwyd a'u dehongliad |

Tref Castell-nedd, T Hornor, (dyfrlliw), 1819

Gweithfeydd Forest ger Abertawe, J Smith, (dyfrlliw), 1792

Gweithfeydd Copr Abertawe, J S Cotman, (dyfrlliw), 1820

Sleid 11-17 | Mae'r sleid gyntaf yn dangos faint o lo, haearn a mwyn a gludwyd ar draws Cymru. Yn y cefndir gallwn weld y llongau a fyddai'n cael eu llenwi gyda'r holl ddeunyddiau ac yna'n ei gludo ledled Prydain a'r byd.

Mae gweddill y sleidiau'n dangos y gweithfeydd haearn a thun a ledaenodd ar draws y de. Roedd maint y diwydiannau hyn yn enfawr. Er enghraifft, erbyn canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd 40% o'r haearn oedd yn cael ei allforio o Brydain yn cael ei greu yn ne Cymru.

Daw'r hanes isod gan Thomas Hornor ac mae'n disgrifio ei ymweliad â Merthyr Tudful.

Llygad dyst:

"Mae mynd am dro drwy'r lle yn llawn pethau diddorol, gyda phob rhan yn cynnwys enghreifftiau o ddyfeisiadau clyfar a mecanweithiau bendigedig sydd, wrth gyferbynnu â'r mynyddoedd eang a phlaen, yn creu gwrthgyferbyniadau ymddangosiadol o foethusrwydd a diffeithwch. Yn y nos, mae'r olygfa'n rhyfeddol ac eithriadol. Mae'r ffwrneisi a'r lludw tanbaid folcanig yn goleuo'r dyffryn, sydd wedi'u cyfuno â rhuo di-baid y ffwrneisi chwyth, sŵn diasbedain y morthwylion trymion a'r olwynion yn chwyrlïo, a golwg annynol y gweithwyr tal, tenau, fel pe baen nhw'n gwireddu, yn syml, ein hofnau cynnar."
(Taith drwy Fro Morgannwg, Thomas Hornor, 1819)

Tirwedd Ddiwydiannol Cymru Cyn Ffotograffiaeth

Delweddau a ddefnyddiwyd a'u dehongliad |

Darlun plaen o'r timau a'r dramiau glo a ddygwyd o lawr i Bilgwenlli gan Samuel Homfray, Thomas John, (olew), 1821

Melinau Rholio, T Hornor, (olew) 1817 (Gweithfeydd Haearn Penydarren, Merthyr Tudful)

Gweithfeydd Tun Trefforest, Sir Forgannwg, J Appleby, (lithograff), 1840

Gweithfeydd Haearn Cyfarthfa Crawshay, P Williams, (olew), 1817

Gweithfeydd Haearn Dowlais, George Childs, (dyfrlliw), 1840

Gweithfeydd Haearn Dowlais, George Childs, (dyfrlliw), 1840

Gweithfeydd Haearn Nant-y-glo, H Gastineau a G Robertson, (dyfrlliw), 1830

Tirwedd Ddiwydiannol Cymru Cyn Ffotograffiaeth

Bywgraffiadau Artistiaid ar gyfer rhai o'r artistiaid |

Yn ystod ail ran y ddeunawfed ganrif, daeth Cymru yn gyrchfan ffasiynol iawn i artistiaid. Oherwydd Rhyfeloedd Napoleon, ni allai pobl deithio i Ewrop mwyach ac felly trodd artistiaid eu sylw at Brydain. (LLGC)

John 'Warwick' Smith

Ganwyd yn Cumberland ym 1749. Ar ôl treulio peth amser yn paentio yn yr Eidal, dychwelodd Smith i Brydain, a rhwng 1784 a 1806 ymwelai'n aml â Chymru a chafodd ei swyno gan y wlad. (LLGC)

Thomas Hornor

Ganwyd yn Hull ym 1785. Ym 1814, daeth i dde Cymru a dechreuodd ddefnyddio ei sgiliau i greu gweithiau celf a oedd yn darlunio tirlun yr ardal.

George Childs

Ganwyd ym 1798. Creodd dri llun dyfrlliw o Ddowlais ym 1840, sef rhai o'r delweddau mwyaf poblogaidd ac eiconig ardal ddiwydiannol de Cymru.

Julius Caesar Ibbetson

Ganwyd yn Leeds ym 1759. Ym 1789, roedd yn westai yng Nghastell Caerdydd, a ddechreuodd gysylltiad dros ddegawd â Chymru. Darluniodd weithfeydd haearn, mwyngloddiau copr, glofeydd a diwydiant Cymru, yn ogystal ag adeiladau hanesyddol a thirweddau gwledig hardd.

Penry Williams

Ganwyd yn Georgetown, Merthyr Tudful, ym 1802. Chafodd Williams ddim hyfforddiant ffurfiol. Pan oedd yn 12 oed byddai'n paentio cardiau Dydd San Ffolant wedi'u gwneud â llaw oedd yn cynnwys blodau lleol a thirluniau o Ferthyr Tudful. Ar ôl gweld ei baentiadau,

Tirwedd Ddiwydiannol Cymru Cyn Ffotograffiaeth

cafodd ei gomisiynu gan deulu Crawshay i baentio golygfeydd amrywiol o Weithfeydd Haearn Cyfarthfa ym 1817 pan oedd yn 15 oed.

Trafodaeth |

Wrth edrych ar y paentiadau hyn, meddyliwch am y canlynol:

- *Meddyliwch am yr amgylchedd, yr adeiladau, sut roedd bywyd yn wahanol, ac ati.*
- *Beth mae'r delweddau hyn yn ei ddweud wrthon ni am hanes diwydiannol Cymru?*
- *A yw'r golygfeydd sy'n cael eu darlunio'n seiliedig ar realiti neu'n fersiwn ramantus, wedi'i dramateiddio o'r Gymru ddiwydiannol?*
- *Nid yw'r rhan fwyaf o'r artistiaid yn dod o Gymru. Beth all hyn ei ddweud wrthon ni am artistiaid yng Nghymru?*
- *Pam mai dynion yw'r artistiaid i gyd?*
- *Beth allai hynny ei ddweud wrthon ni am artistiaid benywaidd yn ystod y 1800au?*

Wrth ofyn y cwestiynau hyn, gall fod yn ddefnyddiol gwybod y canlynol:

- *Roedd peth o'r gwaith celf yn camliwio ac yn gwneud i amgylchedd naturiol yr ardal o amgylch diwydiant edrych yn well. Roedden nhw'n ceisio gwerthu eu gwaith, ac roedden nhw'n dod o draddodiad o baentio tirluniau naturiol.*
- *Dim ond ychydig dros 100 o artistiaid oedd yn gweithio yng Nghymru yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd hyn yn golygu mai ychydig iawn o Gymry oedd yn dod yn artistiaid, a llai fyth o fenywod.*

Tirwedd Ddiwydiannol Cymru Cyn Ffotograffiaeth

- *Mae'r math o gyfrwng sy'n cael ei ddefnyddio gan yr artist yn gallu newid y ffordd rydyn ni'n edrych ar y gorffennol yn sylweddol. Wrth edrych ar y paentiadau, sylwch ar y cyfrwng yn y teitl, a byddwch yn gweld sut mae cyfrwng gwahanol yn gallu newid y delweddau.*

Gwefannau |

Portreadau o Weithwyr Diwydiannol Cymru |

Portreadau Gweithwyr Francis Crawshay -

<https://amgueddfa.cymru/dysgu/gweithgaredd/721/Portreadau-o-Weithwyr-Diwydiannol-Cymru--Portreadau-Gweithwyr-Francis-Crawshay/>

Cymru a Glo | Cyflwyniad -

<https://amgueddfa.cymru/dysgu/gweithgaredd/486/Cymru-a-Glo--Cyflwyniad/>